**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**11-01-10**

**Presennol:** Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Is-gadeirydd yn y Gadair)

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, J.R. Jones, W. Tudor Owen a Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) a Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr John G. Jones, Gwilym Euros Roberts a Goronwy O. Parry (Cyngor Sir Ynys Môn)

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

**3. TYNNU RHESTR FER O REOLWYR BONDIAU I'W CYFWELD**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan Hymans Robertson, ymgynghorwyr y Gronfa, ar y cwmniau a wahoddwyd i dendro ar gyfer cytundeb Rheolwr Bondiau. O'r deg cwmni a wahoddwyd i gyflwyno tendr, penderfynwyd dewis tri cwmni i'w cyfweld. Penderfynwyd ar y tri cwmni ar ôl derbyn adroddiad gan Hymans Robertson a oedd wedi asesu'r cwmniau ar bump elfen. Dewiswyd y cwmniau oedd i'w cyfweld ar ôl ystyried matrics sgorio drafft a gyflwynwyd gan Hymans Robertson ac fe sgoriwyd y cwmniau yn unol â'r matrics hwnnw.

**PENDERFYNWYD gwahodd Henderson Global Investors, Threadneedle Asset Management a Insight Investment Management i gyfweliad gyda'r Pwyllgor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.40am